

Maniffesto ar gyfer marw'n dda yng Nghymru

Cynnig profiad diwedd oes gorau i bawb



Gofal a chefnogaeth
drwy salwch terfynol



Mae marw, marwolaeth a phroffedigaeth yn bethau anochel y bydd yn rhaid i bob unigolyn eu hwynebu ar ryw adeg yn ei fywyd. Mae coronafeirws wedi dod â'r elfennau hyn i sylw'r genedl yn yr amgylchiadau mwyaf trasig. Bellach, mae materion yn ymwneud â sut, ble a pham mae pobl yn marw yn fwy cyfarwydd. Er gwaethaf hyn, mae marwolaeth yn dal i fod yn bwnc na sonnir rhyw lawer amdano, ac mae nifer o bobl yn gyndyn o gael sgysiau agored ynglŷn â'r hyn sydd bwysicaf iddynt ar ddiwedd eu hoes.

O ganlyniad i goronafeirws, mae marw, marwolaeth a phroffedigaeth wedi dod i sylw'r genedl yn yr amgylchiadau mwyaf trasig.

Mae coronafeirws wedi amlygu a dwysáu nifer o heriau a wynebir gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal lliniarol a'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Mae hi'n bwysicach nag erioed i ni gael gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol a chanddo adnoddau digonol, gyda gweithwyr sy'n teimlo bod ganddynt y cymorth a'r offer i ddarparu gofal diwedd oes hygyrch sy'n seiliedig ar werthoedd. Gan fod y boblogaeth yn heneiddio ac yn tyfu'n gyflym, ac oherwydd y cynnydd mewn cydafiachedd, mae darparu gofal arbenigol o'r radd flaenaf bellach yn fwyfwy pwysig; erbyn 2040, bydd y galw am ofal lliniarol wedi cynyddu 42%.¹

Er mwyn gwella profiad y rhai sy'n byw gyda salwch angheuol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru sicrhau bod gofal diwedd oes yn ganolbwynt allweddol ar gyfer y tymor seneddol nesaf. I gefnogi'r ymrwymiad pwysig hwn, mae Marie Curie wedi pennu tri maes â blaenoriaeth ynghyd â champau penodol y dylai'r holl bleidiau gwleidyddol eu cynnwys yn eu manifffestos cyn etholiadau nesaf y Senedd.

Mae Marie Curie yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru a phartneriaid statudol i wneud y canlynol:

- sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal lliniarol
- canfod a bodloni disgwyliadau pawb sy'n cyrraedd diwedd eu hoes
- gweithredu strategaeth profedigaeth cyffredinol sy'n canolbwyntio ar unigolion ar waith yng Nghymru.

Trwy ymrwymo i'r tri maes hyn, a thrwy roi'r camau a nodir isod ar waith, bydd modd i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru sicrhau bod pawb sy'n dioddef effeithiau marw, marwolaeth a phroffedigaeth yn cael y profiad gorau posib.



Phil Hardman/Marie Curie

Blaenoriaeth un: Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal lliniarol

Yr uchelgais gyffredinol

Mae Marie Curie yn galw am ddatblygu fframwaith llywodraethu a gweithredu atebol ar gyfer GIG Cymru. Dylai gweithio tuag at gael gwared â gwahaniaethau ar draws Cymru gan sicrhau bod gan bawb fynediad teg at gymorth a gofal lliniarol pan fo angen.

Camau a argymhellir

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun i olynu'r Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes a ddaw i ben yn 2021/22, gan ddarparu adnoddau llawn ar ei gyfer.
- Dylid cynnwys cynrychiolaeth gofal diwedd oes o fewn unrhyw strwythur llywodraethu arfaethedig newydd ar gyfer y GIG a sefydlir yn ystod y tymor eneddol nesaf.
- Dylid sefydlu fframwaith monitro i oruchwyllo mesurau canlyniadau y cytunwyd arnynt, a dylai'r fframwaith hwn fwydo'n uniongyrchol i unrhyw drefniadau llywodraethu newydd.
- Dylid gwella'r seilwaith data gofal diwedd oes yn ddi-oed, yn arbennig trwy ddisodli ac uwchraddio'r system adrodd ar ofal lliniarol sy'n rhan o System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC) ar hyn o bryd.

Cynllun Gofal Diwedd Oes

O blith y 34,000 o bobl sy'n marw yng Nghymru bob blwyddyn, byddai o leiaf 75% ohonynt yn elwa at ryw fath o ofal lliniarol neu ofal diwedd oes.² Fodd bynnag, am nifer o resymau ni fydd 25% yn gallu cael

mynediad at y cymorth gofal diwedd oes maen nhw ei angen.³ Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y profiad gorau posibl a'u bod yn cael cymorth i wneud y dewisiadau gorau ynglŷn â ble byddant yn marw, rhaid i ofal diwedd oes fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru.

Mae hi'n hanfodol i ni weld Llywodraeth Cymru yn datblygu dull strategol cenedlaethol newydd o ymdrin â gofal diwedd oes – dull a fydd yn olynu'r Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes presennol a ddaw i ben yn 2021/22. Dylid datblygu'r dull strategol newydd hwn ar y cyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, arbenigwyr yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, ac unigolion a'u gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal diwedd oes yn awr neu sydd wedi'u defnyddio yn y gorffennol. Dylai'r dull fod yn ddigon beiddgar i ysgogi'r newid angenrheidiol yn y ffordd rydym yn blaenoriaethu gofal

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru ddatblygu cynllun i olynu'r Cynllun Gofal Diwedd Oes.

42%

Erbyn 2040, bydd y galw am ofal lliniarol wedi cynyddu 42%.¹



diwedd oes, a rhaid iddo gael digon o adnoddau i sicrhau y gellir ei gyflawni'n llwyddiannus ac mewn modd cynaliadwy.

Dylai dull gweithredu ar sail system gyfan fod wrth galon a chraidd gofal diwedd oes, sef dull a fydd yn hwyluso partneriaeth rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol, ac ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn olaf, er mwyn sicrhau atebolrwydd a goruchwyllo'r modd y caiff ei roi ar waith trwy Gymru gyfan, rhaid cynnwys cynrychiolaeth gofal lliniarol diwedd oes o fewn unrhyw strwythur newydd ar gyfer y GIG a sefydlir yn ystod y tymor seneddol nesaf.


Fframwaith Monitro

Dylai'r gwaith o oruchwyllo, ariannu a helpu i ddatblygu a gweithredu fframwaith monitro ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol a phrofiad cleifion ar ddiwedd eu hoes fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru. Byddai'r fframwaith hwn yn galluogi byrddau iechyd i feincnodi gwasanaethau ac archwilio canlyniadau a phrofiad cleifion er mwyn gweld ble yn union mae gwahaniaethau i'w cael ar draws Cymru. Hefyd, byddai'n eu galluogi i fonitro'r cynnydd o ran cael gwared ag anghydraddoldebau iechyd. Byddai'r ddealltwriaeth hon o fudd mawr wrth lywio'r camau mae angen eu cymryd i gael gwared ag anghydraddoldebau iechyd, darparu sylfaen ar gyfer rhannu arferion gorau ac ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth.

O fewn y fframwaith monitro hwn, dylid cael cyfres gytunedig o fesurau canlyniadau a gesglir ac a gofnodir yn gyson ledled Cymru. Dylai'r mesurau hyn gael cytundeb clinigwyr, dylent gael eu llywio gan gleifion a dylent gael eu cipio trwy gyfrwng seilwaith TG newydd (gweler isod). Dylai'r gwaith o ddatblygu a gweithredu mesurau canlyniadau o'r fath gael ei gynnwys fel cam â blaenoriaeth yn y cynllun a fydd yn olynu'r Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes presennol.



Mae **34,000**
o bobl yn marw yng
Nghymru bob blwyddyn.



Ni fydd **25%**
o bobl yn gallu cael
mynediad at y cymorth
gofal diwedd oes maen
nhw ei angen.

Seilwaith data gwell

Er mwyn cael gwared â'r gwahaniaethau o ran gofal, ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth a chynnig y profiad gorau posibl i'r claf, rhaid i wasanaethau gofal diwedd oes yng Nghymru gael eu hategu gan seilwaith data sy'n arloesi'n barhaus, a dylid darparu adnoddau llawn ar eu cyfer. Dylai'r mesurau canlyniadau a bennir fel rhan o'r fframwaith monitro y sonnir amdano yn flaenorol gael eu casglu, eu cyflwyno a'u cofnodi mewn ffordd effeithlon a systematig – ac yn bwysicach na dim, ni ddylid gorlethu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Caiff y cofnod gofal iechyd electronig cyfredol ar gyfer gofal diwedd oes

ei gyflwyno trwy CaNISC, sef system a ddefnyddir hefyd i gipio data am wasanaethau canser. Nid yw CaNISC yn addas i'r diben mwyach, ac mae'r Llywodraeth bresennol yng Nghymru wedi cytuno ar achos busnes ar gyfer system TG newydd. Bydd cam cyntaf y gwaith o ddisodli CaNISC yn digwydd yn ystod Haf 2021. Mae disodli nodweddion gofal lliniarol arbenigol CaNISC, sy'n cynnwys adrodd am ofal lliniarol, yn rhan o Gam 2 y broses, ac ni ddisgwylir i hyn ddigwydd tan 2022. Mae hi'n hollbwysig i elfennau gofal lliniarol y rhaglen hon gael eu cyflawni cyn yr amserlen arfaethedig hon, ac ni ddylent gael eu gohirio gan fod blaenoriaethau eraill o fewn y GIG yn cael y lle blaenaf.



Layton Thompson/Marie Curie

Mae'n rhaid i wasanaethau gael eu hategu gan seilwaith data a TG sy'n arloesi'n barhaus.

Blaenoriaeth dau: Rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid statudol ganfod a bodloni disgwyliadau pawb sy'n cyrraedd diwedd eu hoes

Yr uchelgais gyffredinol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid trwy'r gymdeithas i annog sgysiau agored a gonest ynglŷn â marwolaeth, marw a phrofedigaeth, er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o beth i'w ddisgwyl ar ddiwedd eu hoes. Byddai hyn yn galluogi pobl â salwch angheuol, eu teuluoedd a'u gofalwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r math o ofal yr hoffent ei gael, a ble a chan bwy yr hoffent ei gael.

Camau a argymhellir

- Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun gweithredu er mwyn gael gwybod beth yw disgwyliadau pobl o gefndiroedd gwahanol a phobl â nodweddion gwahanol ar ddiwedd eu hoes.
- Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r siarter *Yr Hyn sydd Bwysicaf* fel arfer gorau ar gyfer cynllunio gofal ymlaen llaw.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno adnodd digidol pwrpasol yn ymwneud â chynllunio gofal ymlaen llaw.

Canfod disgwyliadau

Ers i'r GIG gael ei sefydlu, mae pobl wedi arddel disgwyliadau ynglŷn â'r gofal a'r cymorth y dylent eu cael drwy gydol eu hoes. Dros amser, cafodd hyn ei ategu gan bolisiau, targedau ac adnoddau penodol. Mae targedau o ran amseroedd aros a gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion yn enghreifftiau o'r modd mae disgwyliadau o'r fath wedi'u hatgyfnerthu.

Ond yn achos y cyfnod mwyaf bregus yn ein bywyd – sef diwedd ein hoes – yn aml nid yw pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae ein system gofal iechyd wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylid rhoi cymorth i ni o'r crud i'r bedd, ac yn briodol ddigon mae polisiau iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar atal salwch. Ond mae hi cyn bwysiced rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd â salwch angheuol. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifon, eu teuluoedd a'u gofalwyr gael sgysiau ynglŷn â chynllunio'r math o ofal yr hoffent ei gael, yn cynnwys ble a chan bwy yr hoffent ei gael.

Dylai'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru geisio gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ganfod yr hyn mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl ar ddiwedd eu hoes, gan gydnabod y bydd gan bob unigolyn farn a blaenoriaethau gwahanol. Yn arbennig, dylai gwaith o'r fath geisio clywed gan grwpiau na chânt eu cynrychioli na'u gwasanaethu'n ddigonol – grwpiau sydd, yn rhy aml, yn wynebu rhwystrau anesgusodol wrth gael y cymorth mae arnynt ei angen..

Cynllunio gofal ymlaen llaw

Mae ffyrdd newydd o feddwl yn y gwasanaethau iechyd wedi newid yn sylfaenol y profiad o roi genedigaeth a'r disgwyliadau sydd ynghlwm wrth hyn – o ran lleoliad, amgylchedd ac ymarfer clinigol. Rhaid cael ffyrdd newydd o feddwl mewn perthynas â chymorth a gofal diwedd oes hefyd. Nid cymorth clinigol a rheoli poen yn unig sy'n arwain at farwolaeth dda; rhaid ystyried anghenion yr unigolyn yn ehangach. Rhaid i ni roi dull cyfannol ar waith wrth ymdrin â gofal diwedd oes; fel



Phil Hardman/Marie Curie

arall, mae'n bosibl y bydd dewisiadau pobl yn cael eu hanwybyddu.

Gall cynllunio gofal ymlaen llaw (Advance Care Planning /ACP) hwyluso'r broses hon. Mae ACP yn golygu cynnal trafodaeth rhwng gweithiwr iechyd a/neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol a'r unigolyn sy'n marw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r unigolyn siarad am ei obeithion, ei ofnau a'i ddymuniadau ynglŷn â'i ddiwrnodau olaf a'r hyn a hoffai ddigwydd iddo ar ôl iddo farw.

Cafodd y siarter *Yr Hyn sydd Bwysicaf*¹ ei datblygu gan grŵp o arbenigwyr gofal diwedd oes ledled y DU, sef arbenigwyr o elusennau a chyrrff iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y siarter yw sicrhau bod y gwaith o gynllunio gofal yn canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n gwneud bywyd yn dda i'r unigolyn. Mae'n galluogi gweithwyr proffesiynol a chleifion i gael sgysiau'n sôn am eu perthnasoedd a'u dewisiadau personol, yn ogystal ag ymdrin â'u hanghenion clinigol.

Ochr yn ochr â hyn, mae arbenigwyr gofal lliniarol yng Nghymru wedi bod yn galw am gael adnodd electronig ar gyfer ACP.

Byddai hyn yn hwyluso'r arfer o rannu gwybodaeth am gynllunio gofal ymlaen llaw trwy wasanaethau'r GIG, gan sicrhau y byddai'r wybodaeth ar gael i'r bobl iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn. Dylai hyn gynnwys staff adrannau damweiniau ac achosion brys, meddygon teulu y tu allan i oriau a pharafeddygon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ateb electronig i'w gael i gynorthwyo gyda chynllunio gofal ymlaen llaw, ac mae'r system gyfredol yn aneffeithlon ac yn aml yn aneffeithiol.

Fel y nodir uchod, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ddod o hyd i system arall yn lle CaNISC, ac mae hyn wedi arwain at oedi wrth ddatblygu system electronig ar gyfer cipio data'n ymwneud â ACP. Mae hi'n hollbwysig i'r adnodd digidol hwn gael ei ddatblygu'n ddi-oed, fel y bydd modd ei ddefnyddio i'w lawn botensial ochr yn ochr â fersiwn ddiweddaraf CaNISC. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir cael sector gofal diwedd oes yng Nghymru sy'n cael ei ysgogi gan ddata ac sy'n arloesi'n barhaus.

**Nod y siarter
Yr Hyn sydd
Bwysicaf
yw sicrhau
bod gofal
diwedd oes yn
canolbwyntio
mwy ar yr hyn
sy'n gwneud
bywyd yn dda
i'r unigolyn.**

Blaenoriaeth tri: Rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid statudol oruchwylio'r gwaith o ddarparu strategaeth profedigaeth cyffredinol, sy'n canolbwyntio ar unigolion, yng Nghymru

Yr uchelgais gyffredinol

Gweld strategaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau profedigaeth yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru (mae'r strategaeth hon wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd) a sicrhau bod pawb sydd wedi colli anwylyd yn cael mynediad amserol a theg pan fo angen at gymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Camau a argymhellir

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â gweithredu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau profedigaeth sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, gan sicrhau y bydd y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith ym mhob bwrdd iechyd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adolygu canfyddiadau gwaith Canolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie ar brofiad pobl sydd wedi cael profedigaeth yn ystod argyfwng y coronafeirws, gan weithredu ar sail y canfyddiadau hyn.

Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Profedigaeth yng Nghymru

Mae'r manteision yn sgil rhoi cymorth cyn profedigaeth ac ar ôl profedigaeth i bobl o bob oed yn amlwg. Gall profedigaeth effeithio ar iechyd y meddwl a'r corff, a chael effaith hyd yn oed ar farwolaethau.⁵ Rydym wedi clywed llawer o sôn am y modd

y bydd y wlad yn adfer yn economaidd ar ôl y coronafeirws, ond ychydig iawn o sylw a roddir i'r ffyrdd y byddwn yn adfer yn gymdeithasol – yn cynnwys sut byddwn yn ymateb i'r pandemig fel digwyddiad a arweiniodd at brofedigaethau lu.

Yn 2019, gydag arian gan Lywodraeth Cymru, fe gynhaliodd Canolfan Ymchwil Marie Curie ym Mhrifysgol Caerdydd astudiaeth i ymchwilio i'r math o gymorth profedigaeth sydd ar gael ledled Cymru.⁶ Gwelwyd bod yna wahaniaethau anesgusodol i'w cael ar draws y wlad, o ran cael gafael ar gymorth ac o ran y math o gymorth a oedd ar gael, a gwelwyd hefyd fod nifer o wasanaethau profedigaeth yn wynebu heriau tebyg yn niffyg unrhyw fframwaith clir. Roedd problemau mawr eraill yn cynnwys mynediad at gyllid ac anallu i gwrdd â'r galw.

Rydym yn fodlon gydag ymrwymiad a chynnydd y Llywodraeth bresennol yng Nghymru o ran datblygu strategaeth brofedigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru a chyfres newydd o safonau profedigaeth trwy'r Bwrdd Darparu Gofal Diwedd Oes.⁷ Byddai strategaeth newydd y darparir adnoddau llawn ar ei chyfer yn helpu i sefydlu llwybrau atgyfeirio clir yn ogystal â dulliau effeithiol o asesu risgiau ac anghenion. Hefyd, byddai'n gwella hyfforddiant ar gyfer y staff a'r gwirfoddolwyr, ac yn arwain at ddatblygu cyfeiriadur diweddar o'r cymorth profedigaeth sydd ar gael trwy Gymru. Er mwyn gweld cynnydd o'r fath, rhaid



Layton Thompson/Marie Curie

i Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i'r gwaith hwn a chynnig arweiniad clir er mwyn annog cydweithio rhwng byrddau iechyd, cymunedau a'r trydydd sector.

Profiad pobl sydd wedi cael profedigaeth yn ystod argyfwng y coronafeirws

Yn ddiweddar, cafodd Prifysgol Caerdydd gyllid i ymchwilio i'r modd y darperir gofal diwedd oes a chymorth profedigaeth yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt.

Darganfu'r adroddiad cyntaf ar y data fod yna lefel uchel o anghenion cymorth emosiynol, a hefyd bod pobl wedi cael anawsterau i gael cymorth gan gyfeillion a theulu.⁸ Mae'r gwaith ymchwil yn tynnu sylw at y gallu cyfyngedig i gael mynediad at wasanaethau profedigaeth proffesiynol, yn cynnwys ar gyfer y bobl hynny y barnwyd eu bod fwyaf bregus yn eu galar.

Hefyd, gwelwyd bod yna ddiffyg gwybodaeth yn ymwneud ag opsiynau cymorth profedigaeth, ac mae'r ymchwilwyr yn argymhell y dylid darparu mwy o wybodaeth fel mater o drefn ar ôl marwolaeth, y dylid gweld cynnydd yn yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd o ran opsiynau cymorth profedigaeth, ac y dylai meddygon teulu gynyddu'r arfer o gyfeirio pobl at wybodaeth berthnasol. Ymhellach, mae'r gwaith ymchwil yn

cyflwyno argymhellion cynnar yn ymwneud â chynyddu'r adnoddau a chymryd camau i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith pobl mewn profedigaeth.

Pan gaiff canlyniadau llawn y gwaith ymchwil hwn eu cyhoeddi, dylai Llywodraeth Cymru eu hadolygu a'u hystyried yng nghyswllt unrhyw gamau y gellir eu cymryd yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Brofedigaeth Genedlaethol.

“Sut byddwn yn adfer ac ymateb i'r pandemig fel digwyddiad ag arweiniodd at brofedigaethau lu?”



Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Fel Aelod o'r Senedd, gallwch helpu trwy weithio gyda'ch plaid i annog sgysiau cenedlaethol newydd a chefnogi gwaith y mudiad Cymru Garedig. Nod y mudiad hwn yw ceisio creu naratif newydd ynglŷn ag empathi yn y gymuned, gan gynorthwyo'i ddinasyddion i ymdrin â'r effeithiau negyddol sydd ynghlwm wrth farw, marwolaeth, profedigaeth a cholled.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, dilynwch Cymru Garedig ar twitter **@BywNawr**

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol, gan drydar eich cefnogaeth **@MarieCurieCymru**

Anfonwch e-bost at ein tîm Polisi a Materion Cyhoeddus er mwyn i ni allu cynorthwyo eich etholwyr yn well gyda materion yn ymwneud â marw, marwolaeth a phrofedigaeth – **bethan.edwards@mariecurie.org.uk**



Phil Hardman/Marie Curie

Gwasanaethau Marie Curie

Mae prif elusen diwedd oes y DU, sef Marie Curie, yma i gynorthwyo pawb yn y DU trwy bob agwedd ar farw, marwolaeth a phrofedigaeth. Mae ein nyrsys yn gofalu am bobl yn ein hosbis ac hefyd yn eu cartrefi, gan roi seibiant hollbwysig i ofalwyr a gaiff eu gorlethu. Maent yn taflu rhaff i bobl yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf dychrynlyd a gofidus y bydd unrhyw deulu yn ei wynebu. Y llynedd, bu ein nyrsys yn gofalu am bron i 36,000 o bobl.

Pan fyddwch yn delio ag ysgytwad salwch angheuol, y straen o ofalu am anwylyd,

neu'r boen o ddiodef profedigaeth, mae gwybodaeth y gallwch ymddiried ynnddi yn rhywbeth gwerthfawr iawn. Mae ein llinell gymorth a'r wybodaeth sydd gennym ar-lein yn helpu pobl ar awr gyfyng i deimlo'n dawelach eu meddwl, a theimlo bod ganddynt yr wybodaeth a'r gallu i wynebu'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau.

Ffoniwch ein llinell gymorth ar **0800 090 2309** i gael cyngor a chymorth ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â marw, marwolaeth a phrofedigaeth.

Cyfeiriadau

1. Bone, A., Gomes, B., Etkind, S., Verne, J., Murtagh, F., Evans, C. and Higginson, I., 2018. What is the impact of population ageing on the future provision of end-of-life care? Population-based projections of place of death. *Palliative Medicine*, 32(2), pp.329-336.
2. Marie Curie. (2015). *Triggers for palliative care Improving access to care for people with diseases other than cancer*
3. Dixon, J., King, D., Matosevic, T., Clark, M., and Knapp, M., (2015). 'Equity in the Provision of Palliative Care in the UK: Review of Evidence', *Personal Social Services Research Unit London School of Economics and Political Science*
4. 2019. *What Matters Most Charter* [Ar-lein]. Ar gael ar: 2019. What Matters Most Charter [Ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.whatmattersconversations.org/2020-charter> [Defnyddiwyd ar 17 Rhagfyr 2020]. [Defnyddiwyd ar 17 Rhagfyr 2020].
5. Stroebe, M., Schut, H., & Stroebe, W., 2007. Health outcomes of bereavement. *The Lancet*, 370(9603), pp.1960-1973.
6. Ochieng, C. et al, 2019. *A Scoping Survey of Bereavement Services in Wales: End of Study Report*.
7. Llywodraeth Cymru, Chwefror 2020. *Datganiad Ysgrifenedig: Astudiaeth Gwmpasu o Wasanaethau Profedigaeth – Ymateb Llywodraeth Cymru* [Ar-lein]. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-astudiaeth-gwmpasu-o-wasanaethau-profedigaeth-ymateb-llywodraeth-cymru> [Defnyddiwyd ar 23 Tachwedd]
8. Adroddiadau a Chyhoeddiadau | Profedigaeth COVID



Am fwy o wybodaeth:

Lowri Griffiths

Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus
Marie Curie (Cymru)

E: lowri.griffiths@mariecurie.org.uk

Bethan Edwards

Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus
Marie Curie (Cymru)

E: bethan.edwards@mariecurie.org.uk

Diolch i bawb sy'n ei chefnogi ac yn sicrhau
bod ein gwaith yn bosib. I ddarganfod sut
gallen ni helpu neu i roi arian, ymwelwch â
mariecurie.org.uk

Cafodd y lluniau heb PPE ei chymryd cyn y pandemig coronafeirws

Rif elusen 207994 (Lloegr & Cymru), SC038731 (Yr Alban) F415